



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

LLAWLYFR MODWL

ECDE7001

Archwilio Materion Cyfoes Addysg 1:

Datblygu sgiliau beirniadol fel Arweinwyr

Doethuriaeth mewn Addysg

(Ed D)

LEFEL 7

Yr Athrofa

Cyfadran Addysg a Chymunedau

2017-2018

Tîm Modwl

Peter Rabbett (Arweinydd Modwl)	peter.rabbett@uwtsd.ac.uk
Jan Barnes	Janine.barnes@uwtsd.ac.uk
Louis Dare	louis.dare@uwtsd.ac.uk
Gareth Evans	gareth.evans@uwtsd.ac.uk
Dr Dylan Jones	D.E.Jones@uwtsd.ac.uk

Gobeithiwn y gwnewch fwynhau'r modwl – rydym yma i helpu. Dylech:

-  wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
-  fynychu, paratoi a chymryd rhan mewn sesiynau
-  fod yn hunan-gyfeiriedig ac yn ddysgwyr mwy annibynnol
-  reoli eich amser a'ch gwaith er mwyn bodloni terfynau amser yr aseiniadau

Eich cyfrifoldeb chi yw darllen Rheoliadau ar gyfer Myfyrwyr y Brifysgol, yn enwedig y rheoliadau sy'n ymwneud ag aseiniadau.

Mae'r rhain ar gael ar MyDay. Dylid cyflwyno pob aseiniad ysgrifenedig, ac eithrio papurau arholiad, yn electronig drwy TURNITIN.

Amcanion a Deilliannau'r Modwl

Mae'r modwl agoriadol hwn o'r rhaglen EdD yn galluogi cyfranogwyr i archwilio'r cyd-destun Addysg yng Nghymru ers y datganoli, a chyfrannu at y ddadl genedlaethol a datblygiad y polisi diwygio addysg dros y tymor byr a chanol nesaf. Mae'r cwrs ar gyfer 2017-18 yn dechrau ar adeg bwysig o ran uchelgais Llywodraeth Cymru i godi safonau cyrhaeddiad, ac i hyrwyddo lles pob plentyn a myfyriwr ledled y genedl. Ar ddydd Mawrth, Medi 26^{ain} 2017, bydd yr Ysgrifennydd Addysg yn lansio cynllun gweithredu newydd ar gyfer addysg yng Nghymru.

Dyluniwyd y modwl hwn er mwyn ennyn diddordeb cyfranogwyr parthed gwerthuso polisiau yn feirniadol, y sylfeini maent wedi'u hadeiladu arnynt, a'r effaith fwriadol (ac anfwriadol) y gallent gael. Mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cened* yn darparu'r fersiwn ddiweddaraf o strategaeth er gwelliant.

Gwnaiff y modwl hwn ddarparu ar gyfer cyfranogwyr y cyfle i ganolbwyntio yn fanwl ar faes polisi ac arfer sydd yn rheng flaen eu gwaith. Bydd yr ymarferion asesu yn annog cyfranogwyr i gyfrannu'n uniongyrchol at y ddadl genedlaethol drwy gyhoeddi a chyflwyno.

AMCAN(ION):

- Datblygu dealltwriaeth o, a rhagoriaeth mewn cymhwyso'r sgiliau beirniadol sydd eu hangen ar gyfer arweinyddiaeth effeithiol ym myd addysg.
- Gwerthuso yn feirniadol ymagweddau cyferbyniol at un neu fwy mater cyfoes sy'n wynebu'r broses o wella safonau addysgol yng Nghymru, y D.U. a chyd-destunau rhyngwladol, o ran uniongrededdau addysgol gwahanol.
- Gwerthuso yn feirniadol sut caiff materion addysgol cyfoes a chynigion eu cyflwyno o fewn deddfwriaeth, mewn canllawiau statudol ac anastudol, ac mewn dogfennau ymgynghori, a chynrychiolaeth o'r materion a'r cynigion hynny yn y wasg, y cyfryngau cymdeithasol a sianeli eraill.
- Dangos dealltwriaeth feirniadol o effaith cynrychiolaethau gwahanol o fater addysg cyfoes ar ysgolion, rhieni, cymunedau, a phlant a phobl ifanc.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar gwblhau'n llwyddiannus y modwl hwn, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- asesu effaith ymagweddau gwahanol at gyflwyno polisiau, cynigion a deilliannau addysgol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.
- ddeall y dystiolaeth ynglŷn â'r effaith y mae gwahanol drafodaethau yn ei chael, o ran hyrwyddo neu liniaru effaith newid addysgol.
- archwilio yn feirniadol y berthynas rhwng polisi addysg, strategaeth weithredu ac effaith, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- gyfleu dealltwriaeth o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag arwain yn llwyddiannus newid addysgol.

Manylion y Sesiynau

Mae'r modwl hwn yn cynnwys cyfanswm o 30 awr o ddysgu ar yr amserlen a 270 awr o ddysgu annibynnol. Bydd dau ddiwrnod pan fydd cyfranogwyr a'r tîm modwl yn gweithio gyda'i gilydd, yn ogystal â rhaglen o weminarau/tiworialau wythnosol, er mwyn darparu gweddill y sesiynau dysgu ar yr amserlen a chynorthwyo unigolion a grwpiau o gyfranogwyr.

Sesiwn	Ffocws a deilliant	Aseiniad
1	Dydd Sadwrn 07.10.17 1. Cyflwyniad i'r rhaglen EdD 2. Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl. Cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg. 3. Y map ffyrdd – beth sydd wedi digwydd ym myd Addysg yng Nghymru ers y Datganoli? 4. Paradeimau a Phersbectifau – Sut ydym yn gwneud synnwyr o'r naratifau. 4. Gweminarau a Thiworialau. Strategaethau ar gyfer cynorthwyo dysgu. 5. Y Fframwaith Asesu Deilliant: Cynllun dysgu unigol.	
2	Dydd Mawrth 10.10.17 A ydy addysg yn bodoli er lles y cyhoedd neu elw personol? (Gweminar) Gwnaiff y sesiwn hon ganolbwyntio ar y ddadl gyfredol ynglŷn ag ariannu addysg bellach ac uwch. Mae'r ddadl yn darparu man cychwyn addas i'r modwl hwn, oherwydd mae'n gofyn am archwiliad o baradeimau sy'n gwrthdaro, ac o'r polisi a'r cyflwyno, wrth iddynt ddigwydd o flaen llaw i, yn ogystal ag yn ystod sesiynau seneddol y D.U. a Chynulliad Cymru, 2017. Gwnaiff alluogi ystyriaeth fanwl o gynrychiolaethau'r polisi gan y cyfryngau a dadansoddiad o'r dystiolaeth ynglŷn ag effaith wirioneddol a dichonol yr ymagweddau gwahanol sydd wedi'u gosod mewn lle. Beth wnaiff y rhain ei olygu i gymunedau, teuluoedd a phobl ifanc yng Nghymru?	

	Beth sy'n bwysig o ran arweinyddiaeth? Cadarnhad o'r materion y mae cyfranogwyr am fynd i'r afael â nhw yn y modwl hwn. (Tiwtorial) Deilliant: Cyhoeddi rhestr o'r materion ymchwil.	
3	Dydd Mawrth 17.10.17 Darllen y rhifau – Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? Beth nad ydym yn ei wybod? (Gweminar) Mae'r cwest am atebolrwydd dilys yn rheng flaen agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio'r system. Ar ôl dablo gydag asesu athrawon; profi llythrennedd a rhifedd; categorïddio ysgolion; her ygolion; lefel 2+ a darganfod bod gan y rhain ganlyniadau anfwriadol sylweddol; mae yn awr yn chwilio am ffyrdd mwy effeithiol o feincnodi a mesur cynnydd ar draws pob oedran a chyfnod. Creu'r gronfa dystiolaeth ar gyfer materion allweddol arweinyddiaeth: data ansoddol a meintiol. (Tiwtorial) Deilliant: Cyhoeddi'r set gyntaf o Flogiau.	
4	Dydd Iau 26.10.17 Edrych ar led – beth allwn ei ddysgu oddi wrth y gymuned ryngwladol? (Gweminar) Mae Llywodraeth Cymru wed ymrwymo ei hun i raglen hirdymor o ddiwygio system-eang, er mwyn gwella deilliannau addysg ar bob lefel. Amlinellir y system yn <i>Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl</i>, gydag ymrwymiad amlwg i gyflawni system hunanwella drwy gryfhau arweinyddiaeth y system ar bob lefel. Mae gan yr uchelgais hwn broblemau. Mae'r heriau sy'n wynebu pawb ym myd addysg yn amlwg ac wedi'u dogfennu yn adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd - OECD (2014) a'i ddiweddariad yn 2017. Er hynny, y mae'r ffordd y caiff y system hunanwella ei dehongli, a sut y bydd hi'n edrych o ran strwythur a dillwylliant Cymru, yn amrywio'n fawr o hyd. Gwnaiff y mater hwn ffocysu sylw gartref a thramor, gan ofyn am werthusiad beirniadol o gyfoeth o lenyddiaeth a ddaw o bob rhan	

	o'r byd. Sut gwnaethom gyrraedd yma? Beth sydd wedi'i gyflawni? Ble nesaf? Damcaniaethau a chasgliadau cychwynnol (Tiwtorial) Deilliant: Cynlluniau dysgu diwygiedig	
5	Dydd Mawrth 7.11.17 Asesu effaith. Pam y mae cyn lleied o gynnydd parthed cau'r bwlch cyrhaeddiad? (Gweminar) Mae dros bum mlynedd o fuddsoddi mewn lleihau'r effaith y mae tloedi yn cael ar gyrhaeddiad addysgol wedi rhoi canlyniadau cymysg. Mae'r data yn dangos cynnydd cynyddol, ac mae'r bwlch sydd rhwng disgyblion sy'n disgwyl derbyn prydau am ddim a'r rhai nad ydynt yn eu derbyn wedi culhau. Er hynny, mae'r sefyllfa yn amrywio'n fawr ledled Cymru, hyd yn oed o fewn cymunedau lleol. Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod ar bob corff cyhoeddus fframwaith deddfwriaethol er mwyn sicrhau canlyniad gwell i bawb. Beth yw rhagolygon llwyddiant y mesurau hyn? Materion sy'n dod i'r golwg, croestyniadau a gwrthddywediadau? A oes yna fframwaith damcaniaethol clir a chronfa dystiolaeth? (Tiwtorial) Deilliant: Cyhoeddi'r ail set o Flogiau.	Paratoi ar gyfer cyflwyno
6	Dydd Mawrth 14 Heriau i'r arweinyddiaeth. Sut ydym ni'n ymateb yn unigol ac yn gyfunol? (Gweminar) Mae adroddiadau McKinsey ar systemau addysg sy'n perfformio i lefel uchel yn cyfeirio at y ffactor cyffredin, sef perfformiad athrawon, fel dangosydd gwaelodlin llwyddiant. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i hyn ac i adroddiad yr OECD ar Addysg yng Nghymru (2014) gydag amrywiaeth o ymyriadau: diwygio'r meini prawf ar gyfer dilysu addysg gychwynnol athrawon; Y Fargen Newydd; Ysgolion Arloesol; cyllid a bridianir ar gyfer datblygiad proffesiynol. Dylunir y mesurau hyn i wella ansawdd a chysondeb addysgu ar draws y cwricwlwm a'i effaith ar godi safonau addysgol. Beth yw'r goblygiadau i'r arweinyddiaeth? (Tiwtorial) Deilliant: Cwblhau'r cyflwyniadau drafft.	

7	Dydd Sadwrn 25.11.17 Dadansoddiad beirniadol o'r cyflwyniadau; y sylwebaethau a'r casgliadau; negeseuon allweddol ar gyfer y proffesiwn. Deilliant: Y drydedd set o Flogiau wedi'i chyhoeddi; cyflwyniadau wedi'u hadolygu a'u cyflwyno ar gyfer cyhoeddi.	Cyflwyniad Cynhadledd
8	Dydd Iau 30.11.17 Cynrychioli'r naratif – cynyddu hyder y cyhoedd. Sut y mae arweinwyr yn effeithio ar hyder y gymuned leol o ran addysg gyhoeddus? (Gweminar) Gwnaiff adolygiad Estyn, a gafodd ei gyhoeddi yn ddiweddar, agor y ddadl ar atebolrwydd ansoddol. Mae Estyn newydd lansio fframwaith diwygiedig a'r gyfer archwilio ysgolion, a fydd, yn ôl y bwriad, yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn agored i'r creadigedd sy'n ofynnol mewn ysgolion, er mwyn gweithredu'r cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu. Y gynulleidfa a'r diben. Beth yw'r neges a phwy sydd angen ei chlywed? (Tiwtorial) Deilliant: Cynllun amlinellol o erthygl ar gyfer cyfnodolyn	
9	Dydd Mawrth 5.12.17 Dod â'r cyfan at ei gilydd. Yr her i'r arweinyddiaeth; cwricwlwm newydd; mentrau dysgu proffesiynol newydd, safonau proffesiynol newydd; partneriaethau AGA newydd; cynigion atebolrwydd newydd. A ydy'r cyfan yn gwneud synnwyr? (Gweminar) Goblygiadau i'r arweinyddiaeth. (Tiwtorial) Deilliant: Casglu at ei gilydd rhestr ddarllen o erthyglau cyfnodolion	Adfyfrio beirniadol Y grefft o flogio
10	Dydd Mawrth 9.01.18 Adolygu a gwerthuso – beth y gwnaethom ei ddysgu, a beth yw goblygiadau ein dysgu i'r dyfodol? (Gweminarau) Adolygiad o'r modwl, y cyraeddiadau oherwydd y cyflwyniadau a'r blogiau. Awgrymiadau i'r dyfodol. Negeseuon terfynol. (Tiwtorial)	

	Deilliant: Drafft cyntaf erthygl ar gyfer cyfnodolyn. Cyhoeddi Blog 4.	
	Cyflwyno'r aseiniad terfynol (18.01.18)	Erthygl ar gyfer cyfnodolyn

Manylion yr Asesiad

Cydran Asesu 1-40%

Paratowch gyflwyniad ar gyfer cynhadledd, sy'n gwerthuso yn feirniadol mater cyfoes byd addysg yng Nghymru, ei gynrychiolaeth mewn datganiadau swyddogol, ei driniaeth gan y cyfryngau a'ch dealltwriaeth o'i driniaeth mewn cyd-destun rhyngwladol. (cyflwyniad o 8 munud a deunydd ategol cywerth â 1500 o eiriau)

Cydran Asesu 2-10%

Cyhoeddwch Flog dros y cyfnod y cynhelir y modwl hwn sy'n dogfennu'r materion yr ydych yn eu harchwilio, y mewnwelediadau yr ydych wedi'u cael, gan siartio eich dysgu a sut yr ydych wedi asesu a gwerthuso eich cyraeddiadau. (cywerth â 800 o eiriau, yn seiliedig ar 2 gofnod o leiaf)

Cydran Asesu 3 - 50%

Paratoch erthygl ar gyfer cyfnodolyn priodol sy'n dilyn y canllawiau i gyfranwyr. Dylech gynnwys crynodeb/cyflwyniad sy'n addas ar gyfer ei gyflwyno i gynhadledd ymchwil neu ei roi ar wefan. (papur o 4000 o eiriau, ynghyd â chrynodeb o 150 o eiriau).

Darllen Allweddol

Dosbarthiad	Cofnod Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl. Cynllun Gweithredu Addysg Llywodraeth Cymru 2017.	☒
Hanfodol	Coe R, Aloisi C, Higgins, Elliot Major L. (2014) <i>What Makes Great Teaching? Review of the Underpinning Research</i> . Durham: Centre for Evaluation and Monitoring/The Sutton Trust.	☒
Hanfodol	Hattie J. (2008) <i>Visible Learning: A Synthesis of over 800 Meta-analyses Relating to Achievement</i> . New York: Routledge.	☒
Hanfodol	Ko J, Sammons P. (2013) <i>Effective Teaching: A Review of Research and Evidence</i> . Reading: CfBT Education Trust.	☒
Hanfodol	OECD, (2014) <i>Improving Schools in Wales: an OECD Perspective</i> . Paris, OECD	☒
Pellach	OECD, (2015) <i>Improving Schools in Scotland: an OECD Perspective</i> . Paris, OECD.	☒
Pellach	Painter A, Bamfield M. (2015) <i>The New Digital Learning Age: How we can enable social mobility through technology</i> . RSA London.	☐
Pellach	Pashler H, Bain PM, Bottge BA, et al. (2007) <i>Organizing Instruction and Study to Improve Student Learning. IES Practice Guide NCER 2007-2004</i> . Washington, DC: National Center for Education Research.	☐
Pellach	Dixon P. <i>Testing Times: Success, Failure and Fiasco in Education Policy in Wales since Devolution</i> .	☐
Pellach	Evans G. (2016) <i>A Class Apart: Learning the Lessons of Education in post-devolution Wales</i> . Welsh Academic Press.	☐
Pellach	Cylchgrawn Addysg Cymru. Gwasg Prifysgol Cymru. I'w gyrchu: http://www.wales.ac.uk/Resources/Documents/Wales-Journal-of-Education-Volume-18.1.pdf	☒
Pellach	British Educational Research Journal. Wiley-Blackwell. Accessed at: http://onlinelibrary.wiley.com/journal/10.1002/%28ISSN%291469-	☒

	3518;jsessionid=3AE218BCA75A03D995A142B93E27EEDD.d01t02	
Pellach	International Journal of Educational Research Elsevier. Accessed at: http://www.journals.elsevier.com/international-journal-of-educational-research/	☒
Pellach	Cambridge Journal of Education. Taylor and Francis. Accessed at: http://www.tandfonline.com/toc/ccje20/current	☒
Pellach	American Educational Research Journal. Sage Journals. Accessed at: http://aer.sagepub.com	☒
Pellach	Deans for Impact. <i>The Science of Learning</i> . Austin, TX: Deans for Impact, 2015. Accessed at: www.deansforimpact.org/pdfs/The_Science_of_Learning.pdf	☒
Pellach	OECD Education Policy Outlook 2015, <i>Making Reforms Happen</i> . Accessed at: http://www.oecd.org/edu/education-policy-outlook-2015-9789264225442-en.htm	☒
Pellach	Programme for International Student Assessment. Accessed at: https://www.oecd.org/pisa/	☒
Pellach	RSA Cities of Learning. Accessed at: https://www.thersa.org/action-and-research/rsa-projects/creative-learning-and-development-folder/cities-of-learning	☒
Pellach	Scottish Government. <i>National Improvement Framework for Scottish Education - achieving excellence and equity</i> . 2016. Accessed at: http://www.gov.scot/Publications/2016/01/8314	☒